

# MACDONALD, GORDON, y Barwn MACDONALD o WAENYSGOR cyntaf (1888 - 1966), gwleidydd

**Enw:** Gordon Macdonald  
**Dyddiad geni:** 1888  
**Dyddiad marw:** 1966  
**Priod:** Mary Macdonald (née Lewis)  
**Plentyn:** Elsie Williams (née Macdonald)  
**Plentyn:** Gordon Ramsay Macdonald  
**Rhiant:** Ellen Macdonald (née Hughes)  
**Rhiant:** Thomas Macdonald  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gwleidydd  
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** Deian R. Hopkin

Ganwyd 27 Mai 1888 yng Ngwaenysgor, Prestatyn, Flint, yn fab i Thomas MacDonald ac Ellen (ganwyd Hughes) ond symudodd y teulu'n fuan ar ôl hynny i Asthon-in Makerfield, sir Gaerhirfryn, lle y magwyd ef ar aelwyd Gymraeg ei hiaith. Gadawodd ysgol elfennol S. Luc, Stubshaw Cross, yn 13 oed i weithio mewn pwll glo, a gweithiodd yno hyd ddechrau Rhyfel Byd I, gan dreulio cyfnod yn fyfyrwr yng Ngholeg Ruskin, Rhydychen. Etholwyd ef yn 1920 yn aelod o Fwrdd Gwarchodaeth Wigan a daeth yn gadeirydd iddo yn 1929, a bu'n llywydd Cymdeithas Gydweithredol Bryn Gates, 1922-24. Daeth yn Weithredydd y Glowyr yn sir Gaerhirfryn yn 1924 a pharhaodd yn y swydd honno hyd nes ei ethol yn A.S. (LL) dros Ince, sir Gaerhirfryn yn 1929. Dangosodd ynni a chytbwysedd mewn cyfnod anodd i aelodau Llafur. Er iddo ymgyfeillachu â Ramsay MacDonald, ni ddilynodd ef yn 1931. Daeth yn un o chwipiaid y Blaid Lafur, a chymerodd ran amlwg mewn dadleuon ar y diwydiant glo ac ar gwestiynau cymdeithasol. Bu hefyd yn Gadeirydd Pwyllgorau T 'r Cyffredin, 1934-41. Yn 1942 ymddiswyddodd o'r T pan apwyntiwyd ef yn rheolwr dros siroedd Caerhirfryn, Caer, a gogledd Cymru yn Adran Tanwydd a Phŵer y Llywodraeth, ac enillodd edmygedd mewn cylch eang am ei waith. Ar waethaf diffyg profiad enwebwyd ef yn llywodraethwr talaith Newfoundland, Canada, yn 1946, a'i ddyrchafu'n farchog. Yr oedd y dalaith yn dlawd ond balch, ac mewn cyflwr ariannol dyrys, ac enillodd Macdonald enw da am ei waith ymhlith pysgotwyr, glowyr a ffermwyr bach y dalaith a'i galwai yn 'llywodraethwr y tlawd'. Tywysodd y dalaith i safle annibynnol o fewn gwladwriaeth Canada ac ar ddiwrnod yr ymsefydlu yn 1949 dychwelodd i Brydain a dyrchafwyd ef yn Farwn etifeddol Gwaenysgor.

Yn ystod 1949-51 bu'n dal swydd Paymaster General. Eto, y Gymanwlad a materion rhyngwladol oedd ei brif ddiddordeb. Yn 1950 mynychodd gyfarfod y Cenhedloedd Unedig, a bu'n flaenllaw yn y paratodau ar gyfer cynhadledd bwysig yn Awstralia i drefnu cymorthdaliadau i wledydd de-ddwyrain Asia. O 1952-59 bu'n aelod o'r Colonial Development Corporation, corff a wnaeth gyfraniad pwysig i ddatblygiad economaidd a chymdeithasol gwledydd yr hen ymerodraeth mewn cyfnod pan oeddynt yn creu seiliau i'w hannibyniaeth.

Wedi cwmp y llywodraeth Lafur yn 1951 dychwelodd Arglwydd MacDonald i'w famwlad lle y daeth yn flaenllaw mewn pob math o gymdeithasau a chyrrff cyhoeddus, a daeth ei ymroddiad i fuddiannau Cymru yn amlwg. Cymerodd ddiddordeb mawr mewn cymdeithasau crefyddol a chenhadol, a'i ethol yn llywydd Undeb y 'Band of Hope', 1951, a llywydd Cymdeithas Genedlaethol y Deillion. Ond fel cadeirydd cyntaf Pwyllgor Darlledu Cymru trwy gydol y 1950au y daeth fwyaf adnabyddus yng Nghymru. Cyhoeddodd areithiau a sgysiau a draddodwyd ganddo yn Newfoundland yn *Newfoundland at the cross roads* (1949), a'i *Atgofion seneddol* (1953).

Priododd, 1913, â Mary Lewis o Flaenau Ffestiniog a bu iddynt bedwar o blant. Bu farw 20 Ionawr 1966 ac etifeddwyd y teitl gan ei fab hynaf, Gordon Ramsay MacDonald (ganwyd 1915).

## Awdur

Deian R. Hopkin

## Ffynonellau

*Debrett's Peerage, Baronetage, Knightage, and Companionage*

ei *Atgofion seneddol* (Llundain 1953)

*Prestatyn Weekly*, 19 Ionawr 1946, 3

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Lord MacDonald of Gwaenysgor Papers](#)

Wikidata: [Q333437](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

